



Inspecting policing
in the public interest



**Adroddiad Arolwg
Ymddygiad
Gwrthgymdeithasol**

Heddlu Gwent

Mae Gwent yn profi lefel gymharol uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol a lefel uwch o droseddu'r pen o'r boblogaeth.

Ein hadolygiad ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yng ngwanwyn 2010, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi (HMIC) adolygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys holi dioddefwyr am eu profiadau o roi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu, ac arolygu safon y prosesau y mae heddluoedd yn eu defnyddio i ymdrin â phroblem ac ymateb iddi.

Trwy weithio gyda Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu ym Mhrifysgol Caerdydd, fe wnaethom wedyn ddefnyddio'r canlyniadau hyn i ateb y cwestiwn sut y gall yr heddlu ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol orau.

Beth sy'n gweithio?

Bydd gan heddluoedd y cyfle gorau i roi gwasanaeth da i ddioddefwyr os gwnânt dri pheth allweddol:

- Rhoi gwybodaeth i'r holl swyddogion a staff perthnasol (gan gynnwys timau plismona cymdogaeth, swyddogion sy'n ymateb i argyfyngau a swyddogion CID) yn gyson a thrylwyr am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol;
- Casglu a dadansoddi data a gwybodaeth yn gyson ar fannau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd, troseddwy'r a dioddefwyr yn eu hardal, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddyrannu adnoddau i ymdrin â'r problemau; a
- Darparu'r offer a'r adnoddau cywir i'w timau plismona yn y gymdogaeth i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yna monitro'r cynlluniau y mae'r timau yn eu rhoi yn eu lle i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol.

Dyma sut mae Heddlu Gwent yn perfformio yn y meysydd hyn.

A yw'r holl swyddogion a staff perthnasol yn cael gwybodaeth drylwyr a chyson am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol?

Darganfu HMIC bod swyddogion cymdogaeth yn cael gwybodaeth dda ar faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond tra bod rhai swyddogion yn ymateb yn wybodus am gynlluniau lleol i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol tymor hir, nid oedd hyn yn gyson ar draws yr heddlu cyfan. Roedd rhai swyddogion CID yn ymwybodol o faterion lleol, yn arbennig mewn ardaloedd heddlu pan fydd y ditectif arolygwr lleol yn cadeirio cyfarfodydd dyddiol, ond nid oedd tystiolaeth glir bod swyddogion CID yn gweld ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan o'u rôl.

A yw'r heddlu yn defnyddio gwybodaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol i dargedu ei waith wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Mae cyfarfodydd rheoli dyddiol yr heddlu a'r rhai lleol yn cynnwys adran ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond yn lleol, darganfu HMIC nad oedd tystiolaeth wedi ei chofnodi o gamau y cytunwyd arnynt i ymdrin â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a drafodwyd yn y cyfarfod. Heb gofnodion yn nodi pa gamau ddylai ddigwydd, ni all goruchwylwyr fonitro achosion yn effeithiol i sicrhau bod yr achos yn symud ymlaen fel y bwriadwyd (hy trwy gymharu'r camau a fwriadwyd gyda'r rhai sydd wedi cael eu cofnodi). Mae cyfarfodydd rheoli dyddiol yn canolbwyntio ar ddyrannu adnoddau i ymdrin â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys dioddefwyr dro ar ôl tro, ond mae angen i ddull yr heddlu o adnabod dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bregus fod yn gliriach a chael mwy o sylw er mwyn iddynt gael yr un gwasanaeth.

A oes gan dimau plismona yn y gymdogaeth yr offer a'r adnoddau cywir i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac a yw'r cynlluniau y maent yn eu rhoi yn eu lle i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol yn cael eu monitro?


Mae cynlluniau i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol tymor hir yn cael eu storio ar gronfa ddata gymunedol cyfrifiaduron yr heddlu. Mae diweddariadau ar broses yn gyson ar gael i'r holl staff eu gweld. Roedd y defnydd o ddulliau amrywiol, er enghraifft gorchmynion gwasgaru, contractau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn amlwg yn ystod yr arolwg.

A yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth gan yr heddlu?

Mae ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i'r heddlu ac mae'n ymddangos yn y cynlluniau perthnasol ar gyfer yr heddlu. Mae hefyd yn cael sylw yng nghyfarfodydd rheoli'r heddlu. Mae lefel yr adnoddau a roddir i ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r data a'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn dangos ymrwymiad clir i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Canlyniadau'r arolwg bodlonrwydd dioddefwyr

Fe wnaethom arolygu 151 o bobl a wnaeth roi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwent yn ystod Medi 2009. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau iddynt am eu hamgyffrediad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol, a'u profiad o roi adroddiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu.



O'r canlyniadau, gellir gweld bod yr heddlu yn perfformio yn fras yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y meysydd a ystyriwyd yn yr arolwg.

Yn ychwanegol at y canlyniadau uchod, teimlai dros dri chwarter y bobl a arolygwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem fawr yn eu hardal; dywedodd bron i ddwy ran o dair y bobl a arolygwyd eu bod wedi dioddef ar fwy na thri achlysur yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd bron i hanner y rhai a arolygwyd eu bod yn teimlo bod ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar eu patrwm dyddiol. Dylai'r heddlu edrych ar wella yn y meysydd hyn.

